



Ein Treftadaeth
Our Heritage



DILYNWCH Y STORI: Dowch o hyd i fwy am y cyfnod Neolithig yng ngogledd Cymru drwy ymweld â ffynhonnell bwyell cerrig eraill ar **Fynydd Rhiw** ger Aberdaron ym Mhen Llŷn.

Yn ôl Troed Hynafgwyr a Chwarelwyr

Tro yn yr ucheldir yn chwilota am hanes y cerrig

Hyd: 2-3 awr - Cerdded Anodd

Dechrau yn **Amgueddfa Bythynnod Efrog Newydd (1)** Penmaenmawr.

Wedi eu hadeiladu yn y 1840au a'i galw wrth yr enw hwn am i rywun ddweud ar y pryd "Ddaw neb i weithio yma. Maen nhw i gyd wedi mynd i Efrog Newydd." Glynodd yr enw ac mae un o'r bythynnod, Rhif 4, erbyn hyn yn amgueddfa. Yma, dysgwch sut roedd y chwarelwyr yn byw a cewch ganfod mwy am hanes archeolegol a hanes diwydiannol cyfoethog Penmaenmawr. Fedrwn chi ddim methu'r chwarel enfawr sy'n codi uwchben. Wyddoch chi fod llethrau Graiglwyd wedi cynnig ffynhonnell werthfawr o garreg wedi ei chwarelu am bron i 6,000 o flynyddoedd? Canfuwyd bwyell Neolithig o Graiglwyd dros y wlad i gyd, gyda llawer o enghreifftiau coeth yn cael cartref yn yr Amgueddfa Brydeinig ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Dilynwch y llwybr troed y tu ôl i Fythynnod Efrog Newydd, a dringo i fyny 'r allt heibio Pysgodfeydd Graiglwyd i **Llwybr y Jiwbilî (2)**. Wrth y ddau biler cymerwch wyriad byr ar hyd llwybr a agorwyd yn 1888 i gofio jiwbilî y Frenhines Fictoria a mwynhau golygfeydd syfrdanol arfordir gogledd Cymru.

Wrth farciwr gwenithfaen anferth Huw Tom, cymerwch y llwybr i'r dde sy'n eich cyfeirio at y **Meini Hirion (3)** a dilyn Llwybr Arfordir Gogledd Cymru a marciau Ffordd y Pererinion gan gadw'r wal ar eich ochr chwith. Pan fydd y llwybr yn gadael y wal ac yn croesi nant fechan fe welwch y meini hirion ar y chwith. Mae'r cylch cerrig atgofus hwn yn cael ei ystyried yn un o'r esiamplau gorau ym Mhrydain,


yn ffurfio rhan o gymhlethfa o henebion hynafol a allai fod wedi bod yn fannau cymdeithasol pwysig, ble roedd pobl yn casglu ar rai adegau drwy'r flwyddyn.

O'r cylch cerrig, dilynwch y llwybr ar draws copa'r mynydd gan anelu at y gorllewin tuag at safle'r **Craiglwyd (4)** ble mae'n bosibl gweld rhai o'r chwareli Neolithig ar gopa'r dwyrain a'r clogwyni'n wynebu'r cylch cerrig. Mae'r safle Neolithig ychydig cyn ymyl y chwarel gyfoes.

Dychwelwch at y cylch cerrig a dilynwch y llwybr i gyfeiriad y gogledd sy'n arwain i lawr i Fferm Graiglwyd, ac wedyn ewch yn ôl i Fythynnod Efrog Newydd.



Meini Hirion
© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014

Mae "Ein Treftadaeth" yn rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhagor o gefnogaeth drwy Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.